**ASESYDD DAN HYFFORDDIANT**

**Y Mudiad**: Ry'n ni'n angerddol am roi'r cyfle i bob plentyn chwarae, dysgu a thyfu drwy'r Gymraeg, a'n nod yw gweld siaradwyr Cymraeg newydd yn ffynnu. Gwnawn hyn trwy ymgyrchu dros ofal ac addysg Gymraeg, cefnogi ein haelodau a chynllunio'n strategol i greu darpariaethau (Cylchoedd a Meithrinfeydd) newydd. Mae'n holl Gylchoedd a'n Meithrinfeydd Dydd yn cynnig gweithgareddau llawn hwyl i tua 22,000 o blant ifanc bob wythnos. Ry'n ni hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda rhieni a gofalwyr er mwyn rhoi cefnogaeth a gwybodaeth iddynt ar ddewis addysg Gymraeg, rhoi'r Gymraeg i'w plant a lle i ddechrau dysgu Cymraeg.

Mae bron i 300 o staff yn rhan o deulu Mudiad Meithrin gyda 2,000 yn gweithio yn lleol yn y Cylchoedd a'r Meithrinfeydd dydd. Ry'n ni eisiau i'r Mudiad fod yn gyflogwr sy'n denu grŵp amrywiol o unigolion talentog i weithio iddo, gan aros a'n hargymell fel cyflogwr da. Rydym yn rhoi ein ffydd yn ein staff ac yn rhoi'r grym a chefnogaeth iddynt wneud eu gorau er lles ein haelodau, ein pobl a'u hunain. Mae adlewyrchu'r cymunedau ry'n ni'n cefnogi yn bwysig i ni felly rydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion o bob cefndir.

**Gwerthoedd Gwaith Mudiad Meithrin**
Dyma'r gwerthoedd sydd yn llywio gwaith a gweithgarwch staff Mudiad Meithrin

**Caredig a chyfrifol –** dangos parch at ein hunain, at waith ein gilydd, at bob un sydd yn dod i gysylltiad â ni yn ein gwaith ac at ein cynefin a'n byd

**Tryloyw ac anrhydeddus –** trwy dryloywder a gonestrwydd, bod yn atebol am ein penderfyniadau, bod yn barod i gyfaddawdu ac i ddysgu o'n camgymeriadau

**Proffesiynol ac adeiladol –** gwneud ein gorau o hyd gan anelu at greu gwaith o safon uchel, bod yn arloesi a mentro gan roi bri ar ddatblygu'n hunain

**Cynhwysol a chroesawgar –** gweithredu'r egwyddor fod y Gymraeg yn perthyn i bawb, ei fod yn gyfrwng i'n huno a'i bod yn sylfaenol i bob agwedd o'n gwaith

**Y swydd a'r person:** Rydym yn chwilio am berson addas i hyfforddi fel aseswyr i gyflwyno hyfforddiant ac i asesu dysgwyr yn unol â'r Safonau Cenedlaethol, a gofynion y Cyrff Dyfarnu CBAC / City and Guilds. Bydd disgwyl i'r person llwyddiannus ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu.  Rydym yn chwilio am berson sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg ac sy'n frwdfrydig ac â sgiliau rhyngbersonol o'r radd uchaf.

**Lleoliad:** Bydd disgwyl i'r sawl a benodir, weithio o adref.  Bydd cyfleusterau swyddfa leol ar gael yn un o swyddfeydd Mudiad Meithrin.

**Car:** Bydd angen i'r person llwyddiannus fod â mynediad i gar y gellir ei ddefnyddio ar gyfer y gwaith.

**Oriau**: 2 – 3 diwrnod yr wythnos (15 – 22.5 awr yr wythnos) i'w drafod.

**Gwneud Cais**: Bydd disgwyl i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais ar gyfer y swydd. Ni dderbynnir CV yn lle ffurflen gais. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd nodi sut y mae yn ateb y gofynion hanfodol, a dymunol os yn berthnasol, fel y nodir yn y fanyleb person.

Mwy am Mudiad Meithrin: I ddarganfod mwy o fanylion am Mudiad Meithrin, ewch i'n gwefan www.meithrin.cymru neu ewch i'n tudalen 'facebook'

**Dyletswyddau'r Swydd:**

Bydd yn atebol i Brif Weithredwr Mudiad Meithrin trwy Prif Swyddog Cam wrth Gam am gyflawni'r dyletswyddau canlynol:

- Mynychu hyfforddiant i ennill cymhwyster Tystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol TAQA o fewn 18 mis o ddyddiad cychwyn y swydd drwy gwblhau:
    - (Uned 301) uned theori gychwynnol (cyfanswm o 16 awr) o bell drwy Zoom/Google Meet
    - unedau ymarferol dilynol drwy sesiynau 1 i 1 gyda'r asesydd TAQA yn fisol wedi'r sesiynau cyflwyno, a chasglu a chyflwyno portffolio o dystiolaeth briodol
- Cyflwyno'r cymhwyster Diploma Lefel 2/3 mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (GChDDP) o fewn amser penodedig
- Dylai'r asesydd o dan hyfforddiant fod yn brydlon, yn gyfrifol ac yn darparu ar gyfer holl anghenion y dysgwyr o fewn eu gofal o dan arweiniad y mentor.
- Mae'n gyfrifoldeb ar yr asesydd o dan hyfforddiant i drefnu ymweliadau, arwain trafodaethau ac i gyfathrebu'n broffesiynol gyda'r dysgwyr, arweinyddion y Cylch, athrawon / penaethiaid ysgol, rheolwyr a'r oedolion eraill o fewn y lleoliad.
- Datblygu a chytuno ar gynlluniau realistig ar gyfer dysgu ac asesu gyda'r dysgwyr, gan gymryd i ystyriaeth anghenion yr unigolyn, ac anghenion darparwr y lleoliad gwaith, o dan arweiniad y mentor.
- Cefnogi, tiwtora a mentora dysgwyr i gwblhau'r gwaith, wrth ymweld ac o bell, o dan arweiniad y mentor.
- Sicrhau fod pob gwaith wedi'i gwblhau o fewn amser.
- Gosod gwaith y dysgwyr ar system electroneg Valid-8.
- Sicrhau fod y dysgwr yn derbyn adborth teg ac adeiladol ar bob penderfyniad asesu.
- Cymryd rhan mewn gweithdai hyfforddi ar gyfer y cymhwyster Lefel 2 Craidd mewn GChDDP
- Cyrraedd targedau fel y nodir gan y cwmni.
- Hyrwyddo perthynas bositif gyda phob lleoliad gwaith.
- Mynychu Cyfarfodydd Safoni unwaith bob tymor.
- Mynychu sesiynau hyfforddiant mewn swydd yn ôl y galw.
- Paratoi adnoddau mewn cydweithrediad ag eraill yn ôl yr angen.
- Mynychu Seremoni Wobrwyo flynyddol.
- Unrhyw waith arall perthnasol a chyffredinol i swyddogaeth Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol a Chynllun Ysgolion Cam wrth Gam yn ôl cyfarwyddyd y Prif Weithredwr.
- Cyfrannu'n weithredol at hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob agwedd o'r gwaith, gan wrthod unrhyw ragfarn, ac ymdrin ag unrhyw wrthdaro neu ddigwyddiad yn brydlon yn unol â'r Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

**Manylion y Swydd:**

| **Teitl y swydd:** |
|---|
| Asesydd dan hyfforddiant |

| **Oriau Gwaith:** |
|---|
| 15-22.5 awr yr wythnos – i'w drafod |

| **Cyflog:** |
|---|
| MM17 - £25,585 (pro rata) |

| **Hyd y cytundeb:** |
|---|
| 2 flynedd yn y lle cyntaf gyda phosibilrwydd o estyniad |

| **Datgeliad Gwasanaeth Diogelwch a Gwahardd (GDG):** |
|---|
| Mae'n ofynnol i Mudiad Meithrin gynnal gwiriad Gwasanaeth Diogelwch a Gwahardd (GDG) lefel 'uwch' (enhanced) gweithlu 'plant' ynghyd â chynnal gwiriad yn erbyn y 'rhestr plant gwaharddedig' (child barred list) ar gyfer staff Mudiad Meithrin. |

| **Gwyliau:** |
|---|
| Cynigir y canlynol fel gwyliau gyda chyflog (pro rata):<br>• 25 diwrnod o wyliau dewisol y flwyddyn<br>• Diwrnod ychwanegol o wyliau bob blwyddyn ar ôl dwy flynedd o wasanaeth hyd at 35 diwrnod.<br>• 8 gŵyl banc statudol<br>• Dydd Gŵyl Dewi<br>• Bydd gan y Prif Weithredwr hawl i gynnig diwrnodau achlysurol o wyliau dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd pan fydd swyddfeydd Mudiad Meithrin ar gau. |

| **Costau teithio:** |
|---|
| Telir cyfradd o 45c y filltir hyd at 6,000 o filltiroedd y flwyddyn. Os digwydd i'r aelod o staff yrru mwy na 6,000 o filltiroedd y flwyddyn yn sgil ei swydd, bydd y gyfradd a delir yn lleihau i 25c y filltir. |

| **Pensiwn:** |
|---|
| Mae Mudiad Meithrin yn cynnig cynllun pensiwn gyda chyfraniad o 3% neu 6% gan y cyflogwr |

| **Offer:** |
|---|
| Darperir yr offer canlynol yn ôl disgresiwn y Prif Weithredwr:<br>• Ffôn Symudol<br>• Cyfrifiadur ac (os yn addas) gliniadur |

| **Datblygu a Hyfforddi:** |
|---|
| Mae Mudiad Meithrin yn ymroddedig i ddatblygu a hyfforddi ei staff er mwyn gwella eu sgiliau, ehangu eu gwybodaeth a gwella'r gwasanaeth a gynigir gan y cwmni. Mae cyfle felly i staff fynychu hyfforddiant datblygiad proffesiynol fel rhan o'r swydd dan fantell 'Academi' ac fel arall. |

| **Buddion Eraill:** |
|---|

| |
|---|
| Mae Mudiad Meithrin yn cynnig buddion amrywiol gweler y daflen buddion yn ychwanegol. |

**Manyleb Person:**

| **Sgiliau / Profiadau** | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu gwych yn cynnwys y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ag amrediad eang o gynulleidfaoedd | ✓ | |
| Y gallu i gyfathrebu yn effeithiol ar lafar yn y Gymraeg a'r Saesneg. | ✓ | |
| Y gallu i gyfathrebu yn effeithiol yn ysgrifenedig yn y Gymraeg â'r Saesneg | ✓ | |
| Profiad o weithio ym maes y blynyddoedd cynnar | ✓ | |
| Profiad o asesu mewn lleoliad blynyddoedd cynnar | | ✓ |
| Profiad o drefnu amser a gwaith eich hunain | ✓ | |
| Profiad o diwtora a mentora | | ✓ |

| **Gwybodaeth / Cymwysterau** | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Gwybodaeth dda o safonau Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) / City and Guilds y Cyrff Dyfarnu | | ✓ |
| Gwybodaeth dda am Fframwaith Dysgu Sylfaen yng Nghymru | ✓ | |
| Cymhwyster Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg Plant | ✓ | |
| Trwydded yrru â mynediad i gar ar gyfer defnydd gwaith | ✓ | |
| Sgiliau Technoleg Gwybodaeth dda gan gynnwys rhaglenni Office, y We ac e-bost | ✓ | |